**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**

| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 05.02.2026 |
| **Pwnc / Subject:** | Ymateb parthed Ymgynghoriad ar y Gofynion Cynllunio ar gyfer Cymwysterau newydd Sgiliau Hanfodol Cymru |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000[1] a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan y rhai sy'n cael addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny, gan gynnwys p'un a yw'r adnoddau ariannol sydd ar gael i'r rhai sy'n darparu addysg a hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn modd sy'n cynnig gwerth am arian;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, uwchradd, arbennig a phob oed, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

[1] Caiff y ddeddf hon ei disodli gan Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022, pan fydd y darpariaethau ansawdd yn dechrau.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

Fe wnaeth ein hadroddiad thematig, Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth 2023) godi pryderon am addasrwydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru i'w defnyddio mewn rhaglenni prentisiaethau. Ffocws ein pryderon oedd yr adeg roedd rhaid i brentisiaid gwblhau eu cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru dros gyfnod cymharol fyr eu prentisiaeth, yr her ddysgu sylweddol a oedd yn aml yn wynebu dysgwyr i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer eu hasesiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, a model asesu ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru a oedd yn generig i raddau helaeth, ac yn gofyn i ddysgwyr gymhwyso sgiliau mewn cyd-destun nad oedd yn aml yn gysylltiedig â'u cefndir galwedigaethol.

Rydym yn nodi bod y polisi i barhau i ofyn i ddysgwyr ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru fel rhan o fframweithiau prentisiaeth y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn a chylch gwaith Cymwysterau Cymru, a bod y newidiadau arfaethedig wedi eu bwriadu i gynnwys dysgwyr yn y gwaith.

Rydym o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig yn ddefnyddiol i leddfu ein pryderon am addasrwydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol mewn prentisiaethau. Rydym yn croesawu'r cynnig i leihau'r amser asesu cyffredinol, trefnu asesiadau yn ôl unedau gan alluogi dysgwyr i ailsefyll yr unedau nad ydynt wedi eu cyflawni, a gwella hwylustod asesu ar gyfer canolfannau. Fodd bynnag, mae cyd-destun 'generig' cynnwys y cymhwyster yn golygu bod dysgwyr, yn enwedig y rhai mewn cyd-destunau dysgu yn y gwaith, yn debygol o barhau i gael trafferth ymgysylltu ac y bydd addysgu yn canolbwyntio ar basio'r prawf, yn hytrach na datblygu sgiliau defnyddiol yn eu cyd-destun.

At ei gilydd, rydym yn cefnogi cynnwys arfaethedig y tri chymhwyster, sy'n adlewyrchu diweddaru defnyddiol i sgiliau sydd eu hangen, yn enwedig mewn cysylltiad â Deallusrwydd Artiffisial (AI).

Rydym yn cefnogi'r cynnig i ailenwi'r cymwysterau yn Sgiliau Llythrennedd-, Rhifedd- a Digidol Hanfodol. Er nad yw'n ymddangos ei fod yn cael ei ddatgan yn y ddogfen, rydym yn tybio y byddai'r gyfres yn ei chyfanrwydd yn parhau i fod yn gymwysterau 'Sgiliau Hanfodol Cymru', i gadw cydnabyddiaeth brand y gyfres.

Rydym yn cefnogi'r cynnig ar gyfer asesu hyblyg a mewnol ar lefel mynediad; ac asesiad allanol ar lefelau 1 a 2 yn unig.

Rydym yn deall y rhesymeg dros ddileu cymwysterau mynediad 1 a 2 mewn Sgiliau Digidol ac yn cytuno bod cymwysterau amgen yn bodoli sy'n diwallu anghenion y segment hwn o ddysgwyr.

Er ein bod yn deall y rhesymeg dros ddileu cymhwyster lefel 3 ym mhob teitl, rydym yn pryderu bod hyn yn rhoi arwydd fod datblygiad sgiliau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn arbenigo mewn mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, neu bynciau digidol yn cyrraedd uchafbwynt ar lefel 2, ac yn anghytuno bod cymwysterau cyfwerth â'r un gydnabyddiaeth â Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n llenwi'r bwlch cyfatebol. Byddem yn croesawu arweiniad neu gymhellion a oedd yn parhau i annog datblygiad sgiliau trwy gydol rhaglenni lefel 3.

Rydym yn croesawu'r cynnig i gadw'r opsiwn i ymgeiswyr sefyll rhai elfennau o'u cymhwyster Llythrennedd Sgiliau Hanfodol yn Gymraeg a rhai yn Saesneg, ac y dylai eu tystysgrif gydnabod hyn. Nid yw'n glir o'r cynnig a fydd ymgeiswyr yn gallu dilyn gwahanol elfennau o'u hasesiadau ar gyfer Sgiliau Rhifedd a Digidol Hanfodol yn Saesneg ac yn Gymraeg. Byddem yn croesawu cynnig o'r fath.

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Rhan A: Dibenion cymwysterau lefel cyfres sy'n rhychwantu cymwysterau ym mhob maes pwnc**

**Diben Cymwysterau Sgiliau Hanfodol**

Rydym yn cynnig y dylai cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru:

- gael eu cynllunio'n bennaf ar gyfer dysgwyr ôl-16
- cael eu cynllunio'n bennaf i'w defnyddio mewn Addysg Bellach a Dysgu yn y Gwaith
- adlewyrchu'r sgiliau trosglwyddadwy hanfodol sydd eu hangen mewn dysgu, gwaith a bywyd

Yn ogystal â'r dibenion eang:

- dylai cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru lefel mynediad gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i lefel 1 a 2 yn eu pynciau priodol
- dylai cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru lefel 1 a lefel 2 gefnogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth ac astudio ymhellach mewn ystod o sectorau a phynciau

**C1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dibenion arfaethedig?**

**Cytuno**

**C2: Rhowch reswm am eich ateb**

Fe wnaeth ein hadroddiad thematig, Cyflwyno cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn rhaglenni prentisiaeth 2023) godi pryderon am addasrwydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru i'w defnyddio mewn rhaglenni prentisiaeth.

Rydym yn nodi bod y polisi i barhau i ofyn i ddysgwyr ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru fel rhan o fframweithiau prentisiaethau y tu hwnt i gwmpas yr ymgynghoriad hwn a chylch gwaith Cymwysterau Cymru, a bod y newidiadau arfaethedig wedi eu bwriadu i gynnwys dysgwyr yn y gwaith.

Rydym o'r farn y bydd y newidiadau arfaethedig yn mynd rhywfaint o'r ffordd i leddfu ein pryderon am addasrwydd cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru mewn prentisiaethau. Rydym yn croesawu'r cynnig i leihau'r amser asesu cyffredinol, i drefnu asesiadau yn ôl unedau gan alluogi dysgwyr i ailsefyll yr unedau nad ydynt wedi eu cyflawni, a gwella hwylustod asesu ar gyfer canolfannau. Fodd bynnag, mae cyd-destun 'generig' cynnwys y cymhwyster yn golygu bod dysgwyr, yn enwedig y rhai mewn cyd-destunau dysgu yn y gwaith, yn debygol o barhau i gael trafferth ymgysylltu ac y bydd addysgu yn canolbwyntio ar basio'r prawf, yn hytrach na datblygu sgiliau defnyddiol yn eu cyd-destun.

**C3: A ydych yn dymuno rhoi sylwadau ar gynigion cynllunio ar gyfer cymwysterau Cymhwyso Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru?**

**Ydw**

**Rhan B: Cynigion cynllunio ar gyfer cymwysterau Cymhwyso Rhif.**

**Nodau – Cymhwyso Rhif**

Rydym yn cynnig y nodau canlynol ar gyfer y cymwysterau Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol:

**Ar <u>lefel mynediad,</u> dylai'r cymhwyster alluogi dysgwyr i ddatblygu:**

- hyder yn cymhwyso a defnyddio sgiliau rhifiadol i ddatrys problemau syml
- dealltwriaeth o sut caiff sgiliau rhifedd eu defnyddio mewn cyd-destunau cyfarwydd, ar y cyfan
- rhuglder o ran defnyddio a chymhwyso technegau a gweithdrefnau mathemategol i ddatrys problemau syml
- y gallu i ddefnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys cyfrifianellau i ddatrys problemau syml
- ymwybyddiaeth sylfaenol o gysyniad llythrennedd ariannol a'i gymhwyso mewn cyd-destunau syml

**Ar <u>lefelau 1 a 2</u>, dylai'r cymhwyster alluogi dysgwyr i ddatblygu:**

- hyder mewn cymhwyso a defnyddio sgiliau rhifiadol i ddatrys problemau aml-gam
- dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o sut caiff sgiliau rhifedd eu defnyddio mewn cyd-destunau byd go iawn dilys
- rhuglder o ran defnyddio a chymhwyso technegau a gweithdrefnau mathemategol i ddatrys problemau
- y gallu i ddefnyddio technoleg ddigidol, gan gynnwys cyfrifianellau, yn hyderus ac yn effeithlon, i helpu datrys problemau mathemategol
- dealltwriaeth gynyddol ddatblygedig o lythrennedd ariannol a'i gymhwyso mewn cyd-destunau mwy cymhleth

| **C4: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r nodau arfaethedig?**<br><br>**Cytuno** |
|---|

| **C5: Rhowch reswm am eich ateb** |
|---|

**Cynnwys – Cymhwyso Rhif**

Trwy ddefnyddio canfyddiadau adolygiad Sgiliau Hanfodol Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid, rydym wedi diweddaru cynigion cynnwys y Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol.

Yn gryno, rydym wedi:

- ychwanegu cynnwys ychwanegol yn ymwneud â llythrennedd ariannol
- gwella gwahaniaethu rhwng lefelau
- dileu cynnwys yn gysylltiedig â chynllunio
- aildrefnu cynnwys i'w osod o dan y disgyblaethau canlynol:
    - Rhif
    - Geometreg a Mesurau
    - Ystadegau
- cynnwys cyfrifiannell a chynnwys heb gyfrifiannell
- ystyried cynnwys mewn cymwysterau eraill i sicrhau bod lefel ddigonol o gymharedd

| |
|---|
| **C6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys arfaethedig?**<br><br>**Cytuno** |

| |
|---|
| **C7: Rhowch reswm am eich ateb** |

**Asesiad ar Lefel 1 a 2 – Cymhwyso Rhif**

Trwy ddefnyddio canfyddiadau adolygiad Sgiliau Hanfodol Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn cynnig y dull canlynol i asesu Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol lefel 1 a lefel 2:

**Asesiad 1**

- prawf wedi'i osod yn allanol
- ar sgrin
- ar alw
- yn cael ei farcio'n awtomatig
- canlyniadau yn y fan a'r lle
- cyfuniad o gwestiynau gyda chyfrifiannell a heb gyfrifiannell
- fersiwn bapur ar gael yn lle ar gyfer yr unigolion neu'r canolfannau hynny y mae'n well ganddynt fersiwn bapur

**Asesiad 2**

- prawf wedi'i osod yn allanol
- ar bapur neu ar sgrin
- ar alw

- yn cael ei farcio gan bobl
- amser cwblhau priodol ar gyfer canlyniadau
- caniateir cyfrifiannell
- fersiwn bapur ar gael yn lle os yw cyrff dyfarnu yn dewis datblygu prawf ar sgrin

**Cyfanswm yr amser asesu:**

- Lefel 1: Cyfanswm yr amser asesu: 1 awr a 45 munud (rhaniad amser rhwng asesiad 1 a 2 i'w gadarnhau)
- Lefel 2: Cyfanswm yr amser asesu: 2 awr (rhaniad amser rhwng asesiad 1 a 2 i'w gadarnhau)

**Bydd y cymhwyster yn cael ei drefnu yn ôl unedau**

Bydd mwyafrif y cwestiynau'n cael eu gosod mewn ystod o gyd-destunau. Rydym yn cynnig y bydd y cyd-destunau hynny:

- yn gyd-destunau personol a allai gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddynt:
    - cyllid personol
    - iechyd personol
    - teithio
- cyd-destunau gyrfaoedd, cyflogaeth ac yn y gwaith a allai gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddynt:
    - cadw amser
    - cyflogres
    - cyllid
- cyd-destunau cymdeithasol a allai gynnwys y canlynol, ond heb eu cyfyngu iddynt:
    - economi
    - demograffeg
- cyd-destunau gwyddonol, technolegol ac amgylcheddol, ond heb eu cyfyngu iddynt:
    - hinsawdd
    - meddygaeth
    - cyfrifiadura

Mae symud at fodel asesu wedi'i seilio'n gyfan gwbl ar brofion allanol yn ymateb i'r materion hwylustod a godwyd gan randdeiliaid.

Rydym wedi clywed bod yn well gan rai dysgwyr brawf ar sgrin, a'u bod yn elwa arno. Mae hyn yn cynnig cyfle i farcio'n awtomatig a dychwelyd canlyniadau'n gyflym. Felly, rydym yn cynnig cadw'r nodweddion hynny yn *Asesiad 1.* Bydd fersiwn ar bapur ar gael yn lle ar gyfer y canolfannau neu'r dysgwyr hynny y mae'n well ganddynt gopi papur.

Mae *Asesiad 2* yn disodli'r angen am dasg reoledig. Bydd cael gwared ar y dasg reoledig yn lleihau'r amser asesu cyffredinol yn sylweddol ac yn dileu'r angen i ganolfannau gynnal unrhyw asesiad mewnol. Rydym wedi derbyn adborth nad yw'r cyd-destunau a ddefnyddir yn y tasgau rheoledig presennol yn ddifyr i ddysgwyr. Trwy gael gwared ar y dasg o dan reoledig, bydd dysgwyr yn ymdrin ag ystod ehangach o gyd-destunau sy'n ymwneud â bywyd, dysgu a gwaith. Mae'r cyd-destunau a awgrymir wedi eu rhestru uchod.

Mae amser y prawf arfaethedig yn hirach na'r prawf cadarnhau presennol. Fodd bynnag, bydd hyn gryn dipyn yn fyrrach nag amser y prawf cyffredinol yn y cymhwyster Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol presennol. Bydd hyn yn galluogi cyrff dyfarnu i ofyn mwy o gwestiynau ac asesu'r cynnwys mewn cyfnod amser byrrach, gan felly ddarparu ffordd fwy effeithlon i ddysgwyr ddangos beth maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Mae nifer fach y cwestiynau yn y profion presennol yn golygu na all dysgwyr roi llawer o ymatebion anghywir cyn eu bod yn methu.

Bydd y cymhwyster yn cael ei drefnu yn ôl unedau sy'n golygu y bydd dysgwyr yn cael canlyniad ar gyfer pob uned. Bydd angen i ddysgwyr lwyddo yn y ddau asesiad i ennill y cymhwyster. Bydd dysgwyr yn cael ailsefyll y ddau asesiad. Os yw dysgwyr yn aflwyddiannus mewn un asesiad, bydd ond angen iddynt ailsefyll yr asesiad hwnnw.

Er y bydd cyfrifiannell ar gael ar gyfer y rhan fwyaf o *Asesiad 1,* rydym wedi clywed gan randdeiliaid bod datrys problemau mathemategol heb gyfrifiannell yn sgil pwysig o hyd. Felly, rydym yn cynnig y bydd rhai cwestiynau lle na chaniateir cyfrifiannell. Lle'r cyrff dyfarnu fydd ystyried y materion logistaidd o ran peidio â defnyddio cyfrifiannell yn fersiynau digidol a fersiynau papur yr asesiadau.

**C8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer lefel 1 a lefel 2?**

**Cytuno**

**C9. Rhowch reswm am eich ateb**

Rydym yn cefnogi'r cynnig i leihau'r amser cyffredinol ar gyfer asesu, a gwella hwylustod. Rydym yn cytuno y bydd asesiadau wedi'u trefnu mewn unedau yn fuddiol, a gallent gefnogi ymgysylltu.

**Asesu ar lefel mynediad – Cymhwyso Rhif**

Ar lefel mynediad, nid ydym yn meddwl bod angen cael prawf. Yn hytrach, rydym yn meddwl y gellir asesu'r cymhwyster yn fewnol, er enghraifft trwy bortffolio tystiolaeth,

neu gyfres o dasgau. Rydym yn meddwl bod hyn yn gwneud yr asesu'n fwy hyblyg ac yn ddull gwell ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster ar y lefel hon.

Byddem yn gofyn i gyrff dyfarnu ddiweddaru a chreu tasgau newydd o bryd i'w gilydd, y gallai canolfannau eu defnyddio i gynhyrchu tystiolaeth asesu i helpu sicrhau bod y tasgau sydd ar gael yn parhau i fod yn berthnasol a difyr trwy gydol oes y cymhwyster.

**C10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer lefel mynediad?**

**Cytuno'n gryf**

**C11: Rhowch reswm am eich ateb**

Mae asesu mewnol yn fwy addas ar gyfer y garfan hon o ymgeiswyr.

**Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol Lefel 3**

Canfu ein hadolygiad o Sgiliau Hanfodol Cymru mai nifer fach o ymgeiswyr sy'n astudio cymhwyster Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol Lefel 3. Trwy weithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn deall mai'r prif resymau y mae dysgwyr yn astudio cymwysterau sgiliau hanfodol lefel 3 yw:

- bod ymarferwyr eisiau gwella'u sgiliau ar gyfer cyflwyno cymwysterau lefel 2
- bod dysgwyr eisiau gwthio eu hunain ymhellach
- mai nifer fach o fframweithiau prentisiaeth sy'n gofyn am lefel 3 mewn sgiliau hanfodol

Credwn fod cymwysterau amgen sy'n gallu darparu cyfle yn fwy effeithiol i wella sgiliau a darparu mwy o alw ar gyfer dysgwyr.

Bydd y fframweithiau prentisiaethau presennol yn cael eu diweddaru cyn bo hir. Os nad yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru lefel 3 ar gael, ni fyddant yn gallu cael eu cynnwys fel gofyniad ar y fframweithiau mwyach. Byddai hyn yn gwneud gofynion y fframwaith yn debycach i'r rhai yn Lloegr lle nad yw Sgiliau Swyddogaethol yn bodoli ar lefel 3, ac felly gall y fframweithiau ofyn am lefel 2 yn unig.

I sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru yn wynebu rhwystr ychwanegol o gymharu â'u cyfoedion yn Lloegr, rydym yn cynnig na fydd Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol Lefel 3 ar gael mwyach, ar ôl i'r Cymwysterau Sgiliau Hanfodol etifeddol gael eu disodli gan y cymwysterau diwygiedig.

**C12: A oes unrhyw effeithiau nad ydym wedi eu nodi a fyddai'n codi o gael gwared ar Sgiliau Cymhwyso Rhif Hanfodol Lefel 3?**

Rydym yn deall y rhesymeg dros ddileu cymhwyster lefel 3 ym mhob teitl. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod hyn yn rhoi arwydd fod datblygiad sgiliau ar gyfer dysgwyr nad

ydynt yn arbenigo mewn mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, neu bynciau digidol yn cyrraedd uchafbwynt ar lefel 2, ac yn anghytuno bod cymwysterau cyfwerth â'r un gydnabyddiaeth â Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n llenwi'r bwlch cyfatebol. Byddem yn croesawu arweiniad neu gymhellion cryf i annog datblygiad parhaus sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer dysgwyr rhaglenni neu gyrsiau lefel 3, heb y gofyniad am asesiad allanol.

**Teitl y cymhwyster**

Rydym yn cynnig y dylid ailenwi'r cymhwyster i adlewyrchu ystod y cynnwys sy'n cael ei asesu yn well. Rydym yn awgrymu y dylid ailenwi'r cymhwyster yn Sgiliau Rhifedd Hanfodol.

| |
|---|
| **C13: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl arfaethedig y cymhwyster?**<br><br>**Cytuno** |

| |
|---|
| **C14: Rhowch reswm am eich ateb** |

| |
|---|
| **C15: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer cymwysterau Cymhwyso Rhif Sgiliau Hanfodol Cymru?**<br><br>**dd/b** |

| |
|---|
| **C16: A ydych chi'n dymuno gwneud sylwadau ar gynigion cynllunio ar gyfer cymwysterau Cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru?**<br><br>**Ydw** |

**Rhan C: Cynigion cynllunio ar gyfer cymwysterau Cyfathrebu**

**Nodau - Cyfathrebu**

Rydym yn cynnig nodau canlynol cymwysterau'r Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol:

**Ar <u>lefel mynediad</u>, dylai'r cymhwyster alluogi dysgwyr i ddefnyddio'u sgiliau cyfathrebu a'u cymhwyso i ystod o gyd-destunau, gyda rhywfaint o gyfarwyddyd ac arweiniad.**

- Siarad a gwrando
  - cyflwyno gwybodaeth ag eglurder, cywirdeb ac effeithiolrwydd cynyddol ar bob lefel

  - gwneud cyfraniadau perthnasol at drafodaethau gyda dysgwyr eraill mewn cyd-destunau cyfarwydd
  - gwrando ar gyfraniadau dysgwyr eraill, ac ymateb iddynt
  - gwrando, deall ac ymateb i iaith lafar mewn ystod o gyd-destunau cyfarwydd, ar y cyfan
  - addasu'r hyn y maent yn ei ddweud ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a chyd-destunau
- Darllen
  - cael ystyr a deall gwybodaeth o ystod o destunau syml mewn cyd-destunau cyfarwydd gyda gwahanol fformat a diben
  - deall ystod o eirfa a strwythurau brawddeg syml
- Ysgrifennu
  - mynegi eu hunain yn ysgrifenedig mewn cyd-destunau cyfarwydd, gyda chywirdeb ac effeithiolrwydd cynyddol
  - defnyddio geirfa briodol, a chael amgyffrediad cadarn o sillafu, atalnodi a gramadeg
  - addasu eu hysgrifennu ar gyfer gwahanol gyd-destunau

**Ar <u>lefel 1 a 2</u>, dylai'r cymhwyster alluogi dysgwyr i ddefnyddio'u medrau cyfathrebu yn annibynnol ac yn hyderus, gan eu cymhwyso i ystod o gyd-destunau ffurfiol ac anffurfiol.**

- Siarad a gwrando
  - cyflwyno gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau gyda defnydd clir, cywir, effeithiol a hyderus o iaith lafar
  - cymryd rhan mewn trafodaethau gyda dysgwyr eraill, gan wneud cyfraniadau perthnasol a datblygu syniadau mewn ystod o gyd-destunau
  - gwrando a deall cyfraniadau dysgwyr eraill yn ystod trafodaeth, ac ymateb yn briodol
  - gwrando, deall ac ymateb i iaith lafar mewn ystod o gyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd
  - addasu eu cyflwyno a'u cynnwys i weddu i'r diben a'r gynulleidfa

- Darllen
  - dethol ystyr a deall gwybodaeth, syniadau a safbwyntiau ystod eang o wahanol fathau o destun mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd
  - deall ystod eang o eirfa, strwythurau brawddeg a chyfnodau amser

- Ysgrifennu
  - mynegi eu hunain trwy ddefnydd clir, cywir ac effeithiol o iaith ysgrifenedig
  - defnyddio geirfa briodol ac arbenigol a sillafu, atalnodi a gramadeg cywir

- addasu eu hysgrifennu i weddu i’r diben a’r gynulleidfa mewn ystod o gyd-destunau

**C17: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r nodau arfaethedig?**

**Cytuno**

**C18: Rhowch reswm am eich ateb**

**Cynnwys – Cyfathrebu**

Trwy ddefnyddio canfyddiadau adolygiad Sgiliau Hanfodol Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid, rydym wedi diweddaru cynigion cynnwys Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol.

Yn gryno, rydym wedi:

- diwygio cynnwys i gynnwys datganiadau mwy ystyrlon a gwahaniaethol o’r lefel hyfedredd ofynnol mewn sillafu, atalnodi a gramadeg ar bob lefel
- clystyru datganiadau ar feysydd sgiliau cysylltiedig o fewn pob lefel o’r cymwysterau i ymestyn eglurder ac arwyddocâd strwythur y cynnwys yn well
- gwahaniaethu gwell rhwng lefelau
- cadw cynnwys o dan feysydd:
  - siarad a gwrando
  - darllen
  - ysgrifennu
- grwpio cynnwys ‘Siarad a gwrando’ yn 3 chategori:
  - gwrando ac ymateb
  - siarad i gyfathrebu
  - cymryd rhan mewn trafodaethau
- ystyried cynnwys mewn cymwysterau tebyg eraill i sicrhau bod lefel ddigonol o gymharedd

Rydym hefyd wedi drafftio cynnwys ychydig yn wahanol i gyfrif am wahaniaethau rhwng y Saesneg a’r Gymraeg. Er enghraifft, lle defnyddir collnodau yn Saesneg ond nid yn Gymraeg, a lle defnyddir treigladau yn Gymraeg, ond nid yn Saesneg.

Fe wnaethom ystyried dau gymhwyster ar wahân i’w cwblhau yn gyfan gwbl yn Saesneg neu yn Gymraeg. Fodd bynnag, wrth weithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn deall pa mor bwysig yw hi fod rhai dysgwyr yn gallu dilyn rhai agweddau ar asesiadau’r Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol yn Saesneg, ac agweddau eraill yn Gymraeg. Byddai dau gymhwyster ar wahân ar gyfer y Saesneg a’r Gymraeg wedi dileu’r opsiwn i ddysgwyr gymryd rhan o’r cymhwyster yn Gymraeg a rhan o’r cymhwyster yn Saesneg, ac mae’n

debygol y byddai hyn wedi arwain at wneud llai o asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg, ac felly'n cael effaith negyddol ar y Gymraeg. Mae'r opsiwn i ddysgwyr wneud rhan o'r cymhwyster Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol yn Gymraeg a rhan ohono yn Saesneg eisoes ar waith ar gyfer y Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol presennol.

Wrth siarad â rhanddeiliaid, roedden nhw hefyd yn teimlo'i bod yn bwysig fod dysgwyr yn cael eu cydnabod am yr iaith y maent yn cwblhau asesiadau'r Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol ynddi.

**Rydym yn cynnig y bydd un cymhwyster Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol yn parhau, lle bydd dysgwyr yn gallu gwneud rhan o'r asesiad yn Saesneg (e.e. yr asesiad darllen ac ysgrifennu) a rhan yn Gymraeg (e.e. yr asesiad siarad a gwrando). Rydym yn cynnig y dylai'r dystysgrif ddatgan ym mha iaith y cwblhawyd pob asesiad.**

**C19: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys arfaethedig?**

**Cytuno'n gryf**

**C20: Rhowch reswm am eich ateb**

Rydym yn croesawu'r cynnig i gadw'r opsiwn i ymgeiswyr sefyll rhai elfennau o'u cymhwyster Llythrennedd Sgiliau Hanfodol yn Gymraeg, a rhai ohonynt yn Saesneg, ac y dylai eu tystysgrif gydnabod hyn.

**Asesiad ar Lefel 1 a 2 – Cyfathrebu**

Trwy ddefnyddio canfyddiadau adolygiad Sgiliau Hanfodol Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn cynnig y dull canlynol i asesu sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 1 a Lefel 2:

**Asesiad 1**

- asesu darllen ac ysgrifennu
- prawf wedi'i osod yn allanol
- ar sgrin
- ar alw
- amser cwblhau priodol ar gyfer canlyniadau
- fersiwn bapur ar gael yn lle ar gyfer yr unigolion neu'r canolfannau hynny y mae'n well ganddynt fersiwn bapur

**Asesiad 2**

- asesu siarad a gwrando
- asesiad wedi'i osod yn allanol
- ar alw

- caiff ei farcio’n fewnol a’i safoni’n allanol

**Amseroedd asesu**

**Lefel 1**

Cyfanswm yr amser asesu: Uchafswm o 1 awr 50 munud

Asesiad 1: 1 awr 30 munud (30 munud i ddarllen 1 awr i ysgrifennu)

Asesiad 2: Trafodaeth grŵp am o leiaf 10 munud ar gyfer grŵp o 3-6 dysgwr, 20 munud ar gyfer grwpiau mwy

**Lefel 2**

Cyfanswm yr amser asesu: Uchafswm o 2 awr 15 munud

Asesiad 1: 1 awr 45 munud (45 munud i ddarllen, 1 awr i ysgrifennu)

Asesiad 2: Trafodaeth grŵp am o leiaf 10 munud ar gyfer grŵp o 3-6 dysgwr, 20 munud ar gyfer grwpiau mwy. Cyflwyniad / sgwrs am o leiaf 4 munud

**Bydd y cymhwyster yn cael ei drefnu yn ôl unedau**

Bydd mwyafrif y cwestiynau a’r tasgau yn cael eu gosod mewn ystod o gyd-destunau. Rydym yn cynnig y bydd y cyd-destunau hynny yn cynnwys:

- cyfathrebu bob dydd
- cyfathrebu yn y gweithle
- cyfathrebu digidol, yn cynnwys cyfryngau cymdeithasol
- cyfathrebu ar gyfer cyflogadwyedd
- cyfathrebu ar gyfer hamdden

Nod yr asesiad arfaethedig yw lleihau’r amser asesu cyffredinol yn sylweddol. I wneud yr asesiadau mor hylaw ag y bo modd, rydym yn awgrymu y dylid cynnal dau asesiad.

Rydym yn cynnig y bydd Asesiad 1 mewn 2 ran. Bydd y rhan gyntaf yn asesu darllen, gan ddefnyddio ymatebion caeedig, a bydd yn asesu sgiliau darllen a deall a llunio casgliad. Bydd yr ail ran yn asesu ysgrifennu. Bydd gofyn i ddysgwyr ysgrifennu mewn dwy ffurf at wahanol ddibenion. Bydd un darn o ysgrifennu yn asesu gallu dysgwr i gyflwyno gwybodaeth, a bydd y darn arall yn asesu ei allu i ysgrifennu’n berswadiol. Er bod rhai rhanddeiliaid yn awyddus i weld un dasg ysgrifennu yn unig, dywedodd cyflogwyr wrthym ei bod yn bwysig fod dysgwyr yn gallu ysgrifennu mewn ystod o fformatau. Bydd hydau disgwyliedig y testunau ysgrifenedig o ran y cyfrif geiriau yn gyson â’r cyfrifon geiriau yn y cymwysterau presennol.

Rydym wedi clywed nad yw’r dull presennol o asesu sillafu, atalnodi a gramadeg trwy’r dasg ddarllen yn ffordd ddilys o asesu’r sgiliau hynny. Rydym yn cynnig bod sillafu,

atalnodi a gramadeg yn cael eu profi fel rhan o'r asesiad. Ni chaniateir defnyddio geiriaduron a gwirwyr sillafu yn y dasg ysgrifennu.

Rydym yn awgrymu y bydd Asesiad 2 yn canolbwyntio ar asesu siarad a gwrando a fyddai'n debyg i'r ffordd y maent yn cael eu hasesu ar hyn o bryd, yn cynnwys y dull a'r amseroedd cyffredinol. Fe wnaethom ystyried asesiad gwrando ar wahân, yn debyg i ddulliau a welwyd yn y ffordd y caiff gwrando ei asesu mewn cymwysterau ieithoedd rhyngwladol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y byddai hyn yn cynyddu'r baich asesu i ddysgwyr, canolfannau a chyrff dyfarnu. Felly, rydym yn argymell y dylai gwrando gael ei asesu ochr yn ochr â siarad i leihau problemau hwylustod. Yn y cymwysterau Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol presennol, mae'r asesiad gwrando uniongyrchol yn cyfrif am nifer fach iawn o farciau yn unig. Yn y cymwysterau diwygiedig, byddwn yn cryfhau'r meini prawf asesu ar gyfer sgiliau gwrando fel bod cyfran uwch o'r marciau yn yr asesiad yn cael eu dyrannu i sgiliau gwrando.

Bydd y cymhwyster yn cael ei drefnu yn ôl unedau sy'n golygu y bydd dysgwyr yn cael canlyniad ar gyfer pob uned. Bydd angen i ddysgwyr lwyddo yn y ddau asesiad i ennill y cymhwyster. Bydd dysgwyr yn cael ailsefyll y prawf.

**C21: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer lefel 1 a lefel 2?**

**Cytuno**

**C22: Rhowch reswm am eich ateb**

**Asesiad ar Lefel Mynediad – Cyfathrebu**

Ar lefel mynediad, nid ydym yn meddwl bod angen prawf. Yn hytrach, rydym yn meddwl y gellir asesu'r cymhwyster yn fewnol, er enghraifft trwy bortffolio tystiolaeth, neu gyfres o dasgau. Rydym yn meddwl bod hyn yn gwneud yr asesiad yn fwy hyblyg ac yn ddull gwell ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster ar y lefel hon. Byddem yn gofyn i gyrff dyfarnu ddiweddaru a chreu tasgau newydd o bryd i'w gilydd, y gallai canolfannau eu defnyddio i gynhyrchu tystiolaeth asesu i helpu sicrhau bod y tasgau sydd ar gael yn parhau i fod yn berthnasol a difyr trwy gydol oes y cymhwyster.

**C23: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer lefel mynediad?**

**Cytuno**

**C24: Rhowch reswm am eich ateb**

**Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 3**

Canfu ein hadolygiad o Sgiliau Hanfodol Cymru mai nifer fach o ymgeiswyr sy'n astudio cymhwyster Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 3. Trwy weithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn deall mai'r prif resymau y mae dysgwyr yn astudio cymwysterau sgiliau hanfodol lefel 3 yw:

- bod ymarferwyr eisiau gwella'u medrau ar gyfer cyflwyno cymwysterau lefel 2
- bod dysgwyr eisiau gwthio eu hunain ymhellach
- mai nifer fach o fframweithiau prentisiaeth sy'n gofyn am lefel 3 mewn sgiliau hanfodol

Credwn fod cymwysterau amgen sy'n gallu darparu cyfle yn fwy effeithiol i wella sgiliau a darparu mwy o alw ar gyfer dysgwyr.

Bydd y fframweithiau prentisiaethau presennol yn cael eu diweddaru cyn bo hir. Os nad yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru Lefel 3 ar gael, ni fyddant yn gallu cael eu cynnwys fel gofyniad ar y fframweithiau mwyach. Byddai hyn yn gwneud gofynion y fframwaith yn debycach i'r rhai yn Lloegr lle nad yw Sgiliau Swyddogaethol yn bodoli ar lefel 3, ac felly gall y fframweithiau ond gofyn am lefel 2. I sicrhau nad yw dysgwyr yng Nghymru yn wynebu rhwystr ychwanegol o gymharu â'u cyfoedion yn Lloegr, rydym yn cynnig na fydd Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 3 ar gael mwyach ar ôl i'r Cymwysterau Sgiliau Hanfodol etifeddol gael eu disodli gan y cymwysterau diwygiedig.

**C25: A oes unrhyw effeithiau nad ydym wedi eu nodi a fyddai'n codi o gael gwared ar Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol Lefel 3?**

Rydym yn deall y rhesymeg dros ddileu cymhwyster lefel 3 ym mhob teitl. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod hyn yn rhoi arwydd fod datblygiad sgiliau ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn arbenigo mewn mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, neu bynciau digidol yn cyrraedd uchafbwynt ar lefel 2, ac yn anghytuno bod cymwysterau cyfwerth â'r un gydnabyddiaeth â Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n llenwi'r bwlch cyfatebol. Byddem yn croesawu arweiniad neu gymhellion cryf i annog datblygiad parhaus sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer dysgwyr rhaglenni neu gyrsiau lefel 3, heb y gofyniad am asesiad allanol.

**Teitl y cymhwyster**

Rydym yn cynnig y dylid ailenwi'r cymhwyster i adlewyrchu ystod y cynnwys sy'n cael ei asesu yn well. Rydym yn awgrymu y dylid ailenwi'r cymhwyster yn Sgiliau Llythrennedd Hanfodol.

**C26: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl arfaethedig y cymhwyster?**

**Cytuno**

**C27: Rhowch reswm am eich ateb**

Rydym yn cefnogi'r cynnig i ailenwi'r cymwysterau yn Sgiliau Llythrennedd-, Rhifedd- a Digidol Hanfodol. Er nad yw'n ymddangos ei fod wedi'i ddatgan yn y ddogfen, rydym yn tybio y byddai'r gyfres yn ei chyfanrwydd yn parhau i gael ei henwi'n gymwysterau 'Sgiliau Hanfodol Cymru', i gadw cydnabyddiaeth brand y gyfres.

**C28: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer Sgiliau Cyfathrebu Hanfodol?**

**C29: A ydych chi'n dymuno rhoi sylwadau ar gynigion cynllunio ar gyfer cymwysterau Llythrennedd Digidol Sgiliau Hanfodol Cymru?**

**Ydw**

**Rhan Ch: Cynigion cynllunio ar gyfer cymwysterau Llythrennedd Digidol**

**Nodau – Llythrennedd Digidol**

Rydym yn cynnig y nodau canlynol ar gyfer y cymwysterau Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol:

**Ar <u>lefel mynediad</u>, dylai'r cymhwyster alluogi dysgwyr i:**

- ryngweithio'n ddigidol mewn byd digidol ac i ddeall cysyniad ôl-troed digidol
- trefnu, creu, cyflwyno a storio gwybodaeth ddigidol
- dewis a defnyddio gwybodaeth ddigidol yn briodol
- defnyddio offer digidol priodol i gydweithio â dysgwyr, yn cynnwys gwybod pryd i gydweithio'n ddigidol

  creu adnodd digidol gyda chyfarwyddyd ac arweiniad priodol

- archwilio'r defnydd o Ddeallusrwydd Artiffisial (AI) mewn cyd-destunau cyfarwydd

**Ar <u>lefel 1 a 2</u>, dylai'r cymhwyster alluogi dysgwyr i:**

- ddeall pwysigrwydd cyfrifoldeb digidol
- deall sut i weithio'n ddiogel, yn cynnwys rheoli eu hôl-troed digidol
- defnyddio technolegau, offer, technegau digidol ac ystod o nodweddion i gwblhau tasg
- datblygu dealltwriaeth o sut i gynnal dyfeisiau a datrys materion digidol cyffredin
- rheoli a defnyddio gwybodaeth ddigidol yn llwyddiannus i gwblhau tasg
- defnyddio cydweithio digidol yn effeithiol ac yn effeithlon a deall sut gellir defnyddio cydweithio digidol mewn arfer bersonol a phroffesiynol
- deall sut gellir defnyddio datrysiad creadigol digidol i gwblhau tasg neu ddatrys problem

- deall sut gellir defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) mewn cyd-destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd
- gwerthfawrogi prif effeithiau Deallusrwydd Artiffisial (yn cynnwys effeithiau amgylcheddol) a'i gyfyngiadau

**C30: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r nodau arfaethedig?**

**Cytuno**

**C31: Rhowch reswm am eich ateb**

**Cynnwys – Llythrennedd Digidol**

Trwy ddefnyddio canfyddiadau adolygiad Sgiliau Hanfodol Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid, rydym wedi diweddaru'r cynigion cynnwys Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol.

Yn gryno, rydym wedi:

- defnyddio cynnwys perthnasol yn ymwneud â Deallusrwydd Artiffisial (AI)
- gwella gwahaniaethu rhwng lefelau
- drafftio cynnwys i fod yn ddigon eang i aros yn berthnasol lle mae datblygiadau mewn technoleg ddigidol
- drafftio cynnwys fel y gall weithio â meddalwedd a chymhwysiad
- cadw cynnwys o dan y meysydd pwnc bras canlynol:
  - cyfrifoldeb digidol
  - cynhyrchiant digidol
  - llythrennedd gwybodaeth ddigidol
  - cydweithio digidol
  - creadigrwydd digidol
- ystyried cynnwys mewn cymwysterau digidol eraill i sicrhau bod lefel ddigonol o gymharedd

**C32: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnwys arfaethedig?**

**Cytuno**

**C33: Rhowch reswm am eich ateb**

**Asesu ar Lefel 1 a 2 – Llythrennedd Digidol**

Trwy ddefnyddio canfyddiadau adolygiad Sgiliau Hanfodol Cymru a gweithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn cynnig y dylid defnyddio'r dull canlynol i asesu sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 1 a Lefel 2:

**Asesiad 1**

- prawf wedi'i osod yn allanol
- ar sgrin
- ar alw
- yn cael ei farcio'n awtomatig
- canlyniadau yn y fan a'r lle
- fersiwn bapur ar gael yn lle ar gyfer yr unigolion neu'r canolfannau hynny y mae'n well ganddynt fersiwn bapur

**Asesiad 2**

- asesiad sy'n cael ei osod yn allanol, asesiad sy'n cael ei ddatblygu gan y ganolfan a'i gytuno gan y corff dyfarnu ar alw
- i'w gwblhau yn ddigidol
- yn cael ei farcio'n fewnol a'i safoni'n allanol

**Amseroedd asesiadau**

**Lefel 1**

Cyfanswm yr amser asesu, hyd at: 4 awr

Asesiad 1: hyd at 30 munud

Asesiad 2: hyd at 3 awr a 30 munud

**Lefel 2**

Cyfanswm yr amser asesu, hyd at: 4 awr 45 munud

Asesiad 1: hyd at 45 munud

Asesiad 2: hyd at 4 awr

Rydym yn ymwybodol bod y drafodaeth strwythuredig a ddefnyddir yn y cymhwyster presennol yn arwain at faterion hwylustod. Er enghraifft, o ran gorfod amserlennu a threfnu'r drafodaeth gydag amryfal ymgeiswyr ar yr un pryd. Mae rhanddeiliaid hefyd wedi awgrymu bod yr asesiad yn artiffisial, nid yw'n ddilys gan nad yw'n asesu'r sgiliau sy'n berthnasol i'r pwnc, ac mae'n gweithio'n fwy fel sesiwn holi ac ateb na thrafodaeth ddilys.

Rydym yn cynnig y dylid cael gwared ar y drafodaeth strwythuredig a'i disodli â phrawf mwy hylaw a pherthnasol ar sgrin, wedi'i osod yn allanol. Bydd fersiwn bapur ar gael yn lle ar gyfer y canolfannau neu'r dysgwyr hynny y mae'n well ganddynt gopi papur. Byddai'r prawf yn canolbwyntio'n bennaf ar asesu'r cynnwys yn ymwneud â chyfrifoldeb digidol a

rhai agweddau ar lythrennedd gwybodaeth ddigidol. Hoffem i'r canlyniadau ar gyfer fersiwn ddigidol y prawf fod ar gael ar unwaith, ond rydym yn cydnabod y bydd achosion lle bydd angen amser ychwanegol ar gyrff dyfarnu. Bydd hyn yn arbennig o wir pan gyflwynir profion newydd.

Dywedodd rhai rhanddeiliaid fod yn well ganddynt fwy o brofion wedi eu gosod yn allanol fel ffordd o asesu cyfanrwydd y cynnwys ar gyfer Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol. Rydym wedi ystyried yr adborth hwn. Fodd bynnag, nid ydym wedi ein hargyhoeddi y gall pob un o'r sgiliau o fewn y cymhwyster gael eu hasesu'n ddilys gan ddefnyddio prawf, yn enwedig ym meysydd Creadigrwydd Digidol a Chydweithio Digidol. Yn hytrach, rydym o'r farn fod yr agweddau hyn ar y cynnwys yn cael eu hasesu'n well gan ddefnyddio tasg reoledig.

I sicrhau bod yr asesiadau mor hwylus ag y bo modd ar gyfer dysgwyr a'r rhai sy'n cyflwyno'r cymwysterau, rydym yn cynnig lleihau cyfanswm yr amser asesu yn sylweddol trwy fyrhau hyd y dasg reoledig. Bydd angen i'r asesiadau adlewyrchu'r amser asesu llai i sicrhau bod yr hyn sy'n cael ei asesu yn gymesur â'r amser sydd ar gael.

Bydd y cymhwyster yn cael ei drefnu yn ôl unedau sy'n golygu y bydd dysgwyr yn cael canlyniad ar gyfer pob uned. Bydd angen i ddysgwyr lwyddo yn y ddau asesiad i ennill y cymhwyster. Bydd dysgwyr yn cael ailsefyll y prawf.

**C34: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer lefel 1 a lefel 2?**

**Cytuno**

**C35: Rhowch reswm am eich ateb**

**Asesiad ar Lefel Mynediad 3 – Llythrennedd Digidol**

Ar lefel mynediad 3, nid ydym yn meddwl bod angen prawf. Yn hytrach, rydym yn meddwl y gellir asesu'r cymhwyster yn fewnol, er enghraifft trwy bortffolio tystiolaeth, neu gyfres o dasgau. Rydym yn meddwl bod hyn yn gwneud yr asesiad yn fwy hyblyg ac yn ddull gwell ar gyfer dysgwyr sy'n dilyn y cymhwyster ar y lefel hon. Byddem yn gofyn i gyrff dyfarnu ddiweddaru a chreu tasgau newydd o bryd i'w gilydd, y gallai canolfannau eu defnyddio i gynhyrchu tystiolaeth asesu i helpu sicrhau bod y tasgau sydd ar gael yn parhau i fod yn berthnasol a difyr trwy gydol oes y cymhwyster.

**C36: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r trefniadau asesu arfaethedig ar gyfer lefel 3?**

**Cytuno'n gryf**

**C37: Rhowch reswm am eich ateb**

**Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel Mynediad 1 a 2, a Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 3**

Canfu ein hadolygiad o Sgiliau Hanfodol Cymru mai nifer fach o ymgeiswyr sy'n astudio cymhwyster Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel Mynediad 1 a 2, a Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 3.

Credwn fod nifer fach iawn o ymgeiswyr yn astudio cymhwyster ar lefel mynediad 1 a 2 o ganlyniad i duedd dros gyfnod o ddysgwyr yn dod yn fwy llythrennog yn ddigidol o ganlyniad i amlygrwydd cynyddol i dechnoleg ddigidol. Felly, mae cynnwys ar lefel mynediad 1 a 2 yn llai perthnasol nag ydoedd pan gafodd ei ddrafftio'n wreiddiol.

Trwy weithio gyda rhanddeiliaid, rydym yn deall mai'r prif resymau y mae dysgwyr yn astudio cymwysterau sgiliau hanfodol lefel 3 yw:

- bod ymarferwyr eisiau gwella'u sgiliau ar gyfer cyflwyno cymwysterau lefel 2
- bod dysgwyr eisiau gwthio eu hunain ymhellach
- mai nifer fach o Fframweithiau Prentisiaeth sy'n gofyn am lefel 3 mewn sgiliau hanfodol

Bydd y fframweithiau prentisiaethau presennol yn cael eu diweddaru cyn bo hir. Os nad yw cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru lefel 3 ar gael, ni fyddant yn gallu cael eu cynnwys fel gofyniad ar y fframweithiau mwyach. Credwn fod cymwysterau amgen sy'n gweddu'n well i ddysgwyr ar lefel mynediad 1 a 2, ac ar lefel 3.

Rydym yn ymwybodol fod sgiliau swyddogaethol digidol yn Lloegr yn bodoli ar lefel mynediad 3 a lefel 1 yn unig. Fodd bynnag, credwn fod gwerth a diben o hyd i lefel mynediad 3, lefel 1 a lefel 2 mewn Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol. Rydym yn cynnig na fydd Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel Mynediad 1 a 2, a Lefel 3 ar gael mwyach ar ôl i'r Cymwysterau Sgiliau Hanfodol etifeddol gael eu disodli gan y cymwysterau diwygiedig.

**C38: A oes unrhyw effeithiau nad ydym wedi eu nodi a fyddai'n codi o ddileu Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel Mynediad 1 a 2?**

**C39: A oes unrhyw effeithiau nad ydym wedi eu nodi a fyddai'n codi o ddileu Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol Lefel 3?**

Rydym yn deall y rhesymeg dros ddileu cymhwyster lefel 3 ym mhob teitl. Fodd bynnag, rydym yn pryderu bod hyn yn rhoi arwydd fod datblygiad sgiliau ar gyfer dysgwyr nad

ydynt yn arbenigo mewn mathemateg, Saesneg neu Gymraeg, neu bynciau digidol yn cyrraedd uchafbwynt ar lefel 2, ac yn anghytuno bod cymwysterau cyfwerth â'r un gydnabyddiaeth â Sgiliau Hanfodol Cymru sy'n llenwi'r bwlch cyfatebol. Byddem yn croesawu arweiniad neu gymhellion cryf i annog datblygiad parhaus sgiliau llythrennedd, rhifedd a digidol ar gyfer dysgwyr rhaglenni neu gyrsiau lefel 3, heb y gofyniad am asesiad allanol.

**Teitl y cymhwyster**

Rydym yn cynnig y dylid ailenwi'r cymhwyster i adlewyrchu ystod y cynnwys sy'n cael ei asesu yn well. Rydym yn awgrymu y dylid ailenwi'r cymhwyster yn Sgiliau Digidol Hanfodol.

**C40: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â theitl arfaethedig y cymhwyster?**

**Cytuno**

**C41: Rhowch reswm am eich ateb**

**C42: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer Sgiliau Llythrennedd Digidol Hanfodol?**

**Cwestiynau am Asesu Effaith**

**C43: A oes unrhyw effeithiau rheoleiddio, yn cynnwys costau, arbedion neu fuddion eraill, nad ydynt wedi cael eu nodi sy'n deillio o'r cynigion? Os oes, beth yw'r effeithiau ac a oes unrhyw gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i leihau effaith reoleiddio'r cynigion? Rhowch amcan am ffigurau o amgylch costau, lle bo modd.**

**C44: A oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydym wedi eu nodi? Os felly, beth ydyn nhw, a pha gamau ychwanegol y gellid eu cymryd i leihau unrhyw effaith negyddol ar y bobl hynny?**

**C45: Sut gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg, neu leihau effeithiau negyddol? A oes unrhyw effeithiau posibl eraill nad ydym ni wedi eu nodi eto? Os felly beth ydyn nhw?**

Rydym yn croesawu'r cynnig i gadw'r opsiwn i ymgeiswyr sefyll rhai elfennau o'u cymhwyster Llythrennedd Sgiliau Hanfodol yn Gymraeg, a rhai ohonynt yn Saesneg, ac y dylai eu tystysgrif gydnabod hyn. Nid yw'n glir o'r cynnig a fydd ymgeiswyr yn gallu newid rhwng ieithoedd yn eu hasesiadau ar gyfer Sgiliau Rhifedd a Digidol Hanfodol. Byddem yn croesawu cynnig o'r fath.

**C46: A oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ar y cynigion ar gyfer cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru?**